**Ymatebion i argymhellion adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, sef Addysgu Hanes, Diwylliant a Threftadaeth Cymru**

**Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

**<u>Argymhelliad 1</u>**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ofyn i Estyn gynnal adolygiad thematig o drefniadau addysgu hanes Cymru mewn ysgolion. Hoffai'r Pwyllgor gael tystiolaeth o'r graddau y mae ysgolion yn bodloni gofynion y manylebau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch o ran addysgu cynnwys Cymreig.

**Ymateb: Derbyn**

Mae fy swyddogion yn cydweithio ag Estyn i gytuno ar gylch gwaith yr adolygiad thematig o drefniadau addysgu hanes Cymru mewn ysgolion, a bydd argymhellion y Pwyllgor yn sail i'r adolygiad hwn. Bydd canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu cyhoeddi unwaith y bydd Estyn wedi'u cwblhau.

**Goblygiadau ariannol: Dim (Mae Estyn wedi cadarnhau bod ganddynt y capasiti i gynnal yr adolygiad hwn yn 2019/20)**

**<u>Argymhelliad 2</u>**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai'r Cwricwlwm i Gymru 2022 gynnwys canllaw sy'n nodi corff cyffredin o wybodaeth ar gyfer yr holl ddisgyblion sy'n astudio hanes. Bydd y digwyddiadau a'r pynciau allweddol hyn yn galluogi pob disgybl i ddeall sut mae ei wlad wedi cael ei dylanwadu gan ddigwyddiadau lleol a chenedlaethol yng nghyd-destun hanesion Cymreig, Prydeinig a rhyngwladol

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Cwricwlwm Cymru yn gwricwlwm pwrpasol sy'n torri cwys newydd drwy ymwrthod â rhestrau o 'bynciau / cynnwys' sydd i'w haddysgu. Mae Cwricwlwm Cymru yn rhoi mynegiant clir i'r ddealltwriaeth cyd-destunol sy'n angenrheidiol ar gyfer cael dilyniant yn y dysgu. Bydd hanes yn rhan o Faes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Mae canllawiau MDPh y Dyniaethau yn amlinellu methodoleg ar gyfer dewis cynnwys, ac mae'n cyfeirio at yr angen parhaus i sôn am ardal leol y dysgwr a stori Cymru, yn ogystal â pherthynas stori Cymru â'r byd yn ehangach, er mwyn galluogi dysgwyr i ddatblygu dealltwriaeth o natur gymhleth ac amrywiol cymdeithasau'r gorffennol a chymdeithasau'r dyfodol.

Fodd bynnag, byddwn yn gweithio gydag ymarferwyr i gomisiynu adnoddau newydd a fydd yn cyfeirio at ddigwyddiadau a phynciau allweddol yn hanes Cymru a'r byd. Bydd hyblygrwydd y Cwricwlwm newydd yn ychwanegu at hyn drwy ganiatáu i athrawon ddarparu gwersi mewn ffyrdd mwy creadigol, sy'n fwy priodol i'r dysgwyr sy'n cael eu haddysgu.

Bydd canllawiau'r cwricwlwm hefyd yn glir ar ba mor bwysig ydyw i gwricwla ysgolion adlewyrchu Cymru, ei threftadaeth ddiwylliannol a'i hamrywiaeth, ynghyd a gwerthoedd, hanes a thraddodiadau ein cymunedau a'n pobl.

Dylai dysgwyr gael sylfaen a dealltwriaeth o'r hunaniaeth, y dirwedd a'r hanesion sy'n ffurfio eu cynefin. Bydd hyn yn eu galluogi i feithrin ymdeimlad cryf o'u hunaniaeth a'u lles eu hunain, a bydd hefyd yn gymorth iddynt ddatblygu dealltwriaeth o hunaniaeth eraill a gwneud cysylltiadau â phobl, lleoedd a hanesion mewn mannau eraill yng Nghymru ac ar draws y byd.

**Goblygiadau ariannol: Dim**

**<u>Argymhelliad 3</u>**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Cwricwlwm i Gymru 2022 gynnwys amrywiaeth fel elfen graidd. Mae perygl na fydd yr hyblygrwydd arfaethedig i ysgolion ac athrawon yn sicrhau bod pob disgybl yng Nghymru yn gwybod stori ein cymunedau ethnig a chrefyddol amrywiol.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd y cwricwlwm newydd yn eang, cytbwys, cynhwysol a heriol. Mae un o'r pedwar diben sy'n greiddiol iddo yn ceisio sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu fel dinasyddion egwyddorol, gwybodus, sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.

Bydd y cwricwlwm yn rhoi  am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd, gan barchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol.

**Goblygiadau ariannol: Dim**

**<u>Argymhelliad 4</u>**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Er mwyn sicrhau bod hanes yn cynrychioli holl gymunedau Cymru a'u cysylltiadau rhyngwladol, dylai'r adolygiad thematig Estyn o drefniadau addysgu hanes, a argymhellir yn yr adroddiad hwn, asesu sut y caiff amrywiaeth ei addysgu ar hyn o bryd mewn ysgolion

**Ymateb: Derbyn**

Gweler yr ymateb i Argymhelliad 1.

**Goblygiadau ariannol: Dim (Mae Estyn wedi cadarnhau bod ganddynt y capasiti i gynnal yr adolygiad hwn yn 2019/20.)**

## Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall ehangu gwaith Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru a Race Council Cymru i holl fyfyrwyr ac athrawon Cymru.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio Cronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd i ddatblygu'r prosiect Troseddau Casineb mewn Ysgolion a'r Grant Troseddau Casineb mewn Cymunedau Lleiafrifol. Bydd y prosiect Troseddau Casineb mewn Ysgolion y bydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn ei arwain, sy'n werth £350,000, yn cael ei gyflwyno mewn 100 o ysgolion ledled Cymru. Bydd yn ceisio meithrin sgiliau meddwl beirniadol plant a'r gallu i adnabod a herio casineb geiriol ar-lein neu heb fod ar-lein. Ymgynghorwyd ag awdurdodau lleol ynghylch pa ddarparwr hyfforddiant yr hoffent ei ddefnyddio yn eu hardal ac mae CLlLC ar hyn o bryd yn ystyried yr opsiynau ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

Datblygwyd grant gwerth £480,000, sef y Grant Troseddau Casineb mewn Cymunedau Lleiafrifol, mewn ymgynghoriad â Fforwm Hil Cymru er mwyn sicrhau y gall rhanddeiliaid allweddol gyflawni prosiectau sy'n ymwneud â mynd i'r afael â throseddau a brofir gan gymunedau lleiafrifoedd ethnig a lleiafrifol. Mae wyth sefydliad wedi cael cyllid i gyflawni amcanion y Grant, sy'n cynnwys naill ai:

- Gweithgareddau codi ymwybyddiaeth uniongyrchol gydag aelodau o'r gymuned leiafrifol (e.e. gwella dealltwriaeth o droseddau casineb, sut i roi gwybod amdanynt a beth i'w ddisgwyl ac ati)
- Gweithgareddau codi ymwybyddiaeth uniongyrchol gyda'r gymuned ehangach (e.e. dosbarthiadau mewn ysgolion, sesiynau hyfforddi, gweithio gyda chwmnïau tacsi lleol ac ati.)
- Meithrin perthynas dda er mwyn gwella rhaniadau.

Roedd y Tîm Lleiafrifoedd Ethnig a Chymorth Ieuenctid Cymru a Race Council Cymru yn ddau o nifer o ddarparwyr a lwyddodd i gael cyllid drwy'r grant. Bydd Tîm Lleiafrifoedd Ethnig a Chymorth Ieuenctid Cymru yn gweithio mewn ysgolion yn Ne-orllewin, Canolbarth a Gorllewin Cymru i gyflwyno eu prosiect 'Don't Hate, Educate' er mwyn hyfforddi pobl o gefndiroedd amrywiol a nodweddion gwarchodedig i gyflwyno gweithdai i blant ysgol (Cyfnodau Allweddol 2 a 3) ac athrawon a chynorthwywyr addysgu i godi ymwybyddiaeth o droseddau casineb a herio agweddau tuag at gasineb. Bydd prosiect Cymorth i'r Gymuned Race Council Cymru

yn cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth mewn ysgolion yng Ngogledd a De-orllewin Cymru.

**Goblygiadau ariannol:** Dim; rydym eisoes wedi ymrwymo i'r prosiectau hyn drwy Gronfa Bontio'r Undeb Ewropeaidd

**<u>Argymhelliad 6</u>**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Mae'n hanfodol sicrhau y bydd y gwaith o weithredu Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cael ei gefnogi'n briodol gyda deunyddiau addysgu sy'n adlewyrchu'r uchelgais i addysgu hanes Cymru o'r safbwyntiau lleol a chenedlaethol. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau bod adnoddau o'r fath ar gael yn eang

**Argymhelliad – Derbyn**

Yn ddiweddar, cynhaliodd fy swyddogion adolygiad i'r adnoddau presennol sydd ar gael i gefnogi addysgu hanes Cymru mewn ysgolion, a fydd yn nodi unrhyw fylchau yn yr adnoddau hyn. Bydd y gwaith o gomisiynu adnoddau pellach i gefnogi addysgu'r cwricwlwm newydd yn cael ei lywio gan ganlyniad adolygiad Estyn.

Mae llawer o adnoddau addysgu ar gael ar hyn o bryd ar Hwb, a bydd fy swyddogion yn ystyried y ffordd orau o sicrhau y caiff yr adnoddau presennol a'r adnoddau newydd eu darparu mor eang â phosibl.

**Goblygiadau ariannol: Dim: mae cyllid ar gyfer datblygu adnoddau wedi cael ei nodi yn y cyllidebau presennol**

**<u>Argymhelliad 7</u>**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn sicrhau y bydd addysg gychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus yn galluogi i bawb sy'n addysgu hanes wybod sut i gael mynediad at hanes Cymru a'i gyflwyno. Dylai Llywodraeth Cymru nodi ei hymdrechion i gynyddu nifer yr athrawon BAME yng Nghymru a pha mor llwyddiannus y mae wedi bod.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae'r rhan gyntaf o'r argymhelliad hwn yn ymwneud ag addysg gychwynnol i athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus.

Bydd dysgu proffesiynol yn  greiddiol er mwyn sicrhau bod staff ysgolion yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth broffesiynol sy'n angenrheidiol i gyflwyno'r cwricwlwm newydd i Gymru.

Mae’r rhaglenni Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) sy’n cael eu cyflwyno o fis Medi 2019 wedi cael eu datblygu a’u hachredu ar sail y Meini Prawf Achredu newydd. Nid ydym yn rhagnodi cynnwys rhaglenni unigol ond mae’n ofynnol eu bod yn bodloni’r meini prawf er mwyn cael eu hachredu.

Dylai athrawon allu helpu plant a phobl ifanc i wneud cysylltiadau ar draws eu dysgu o dan chwe Maes Dysgu a Phrofiad. Mae’n rhaid i raglenni AGA, felly, sicrhau bod gwybodaeth bynciol a gwybodaeth o gynnwys addysgeg pob darpar athro yn cyrraedd y lefel sy’n angenrheidiol iddynt ddeall gofynion y Meysydd Dysgu a Phrofiad a hefyd sicrhau bod disgyblion/myfyrwyr yn cael profiad dysgu o’r ansawdd uchaf. Ar gyfer pynciau arbenigol mewn addysg uwchradd, rhaid i raglenni gyflwyno gwybodaeth sy’n ddigon eang a dwfn yn y maes neu’r meysydd y mae’r darpar athro yn bwriadu eu haddysgu. Dylai’r rhaglenni hyn hefyd gynnwys cwricwlwm disgyblaethau penodol ac astudiaethau addysgeg ar gyfer pob maes y mae’r myfyriwr yn bwriadu ei addysgu ar draws holl ystod oedran yr ysgol uwchradd.

Lansiwyd ein Dull Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (y Dull Gweithredu Cenedlaethol) i gefnogi’r cwricwlwm newydd ym 2018, ac erbyn hyn mae’n cael ei gydnabod fel y fframwaith cenedlaethol a ddylai fod yn sail i gynllunio a chyflwyno pob dysgu proffesiynol. Mae'r dull cenedlaethol wedi'i gynllunio i ymateb i flaenoriaethau ysgolion a blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, ac mae'n annog holl staff yr ysgol i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol eu hunain. Bydd yn helpu'r holl weithwyr proffesiynol ym maes addysg i drosi a chynllunio'r cwricwlwm newydd yn eu cyd-destun lleol eu hunain.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid cyflenwi a’r consortia rhanbarthol i sicrhau bod y berthynas rhwng yr ysgolion ymholi arweiniol a'r gymuned ehangach o ysgolion yn cyflawni ar draws y system, er mwyn sicrhau yr eir i'r afael ag anghenion datblygu uniongyrchol y cwricwlwm newydd drwy'r arlwy dysgu proffesiynol ehangach. Bydd y gwaith hwn hefyd yn cefnogi'r newid i raglen ymholi proffesiynol genedlaethol, a ddatblygwyd yn AGA i ddechrau.

Rydym yn buddsoddi'n helaeth mewn dysgu proffesiynol, gyda dyraniad cyllid uwch o £ 24m i sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm newydd yng Nghymru. Gellir defnyddio'r cyllid hwn yn hyblyg i alluogi ysgolion i gydweithio mewn ffyrdd sy'n addas i'w hamgylchiadau eu hunain, ac i greu'r amser a'r lle i ymarferwyr ac arweinwyr weithio ar draws ysgolion a rhwydweithiau i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd. Er mwyn cryfhau'r seilwaith dysgu proffesiynol, rydym hefyd yn gweithio gydag ymarferwyr i ddatblygu adnoddau digidol i gefnogi rhaglen ddysgu broffesiynol gyffredin ar gyfer diwygio'r cwricwlwm, a fydd ar gael ar Hwb o 2020.

Rhan allweddol o'n dull gweithredu cenedlaethol fydd sefydlu rhwydweithiau cenedlaethol newydd sy’n cyd-fynd â phob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad, ynghyd â rhwydwaith sy'n canolbwyntio'n benodol ar addysgeg. Bydd y rhwydweithiau hyn yn gyfrwng i ymgysylltu â'r sector ehangach er mwyn sicrhau bod pob ymarferydd yn cael cymorth i ddatblygu ei sgiliau a'i wybodaeth ymhellach er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Mae ail ran yr argymhelliad hwn yn ymwneud ag ymdrechion Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer yr athrawon BAME yng Nghymru.

Fel rhan o'n hymdrechion i amrywio'r gweithlu, mae ein llwybrau amgen newydd i addysgu wedi'u datblygu i gefnogi unigolion talentog a allai fynd yn athrawon sy'n methu â defnyddio AGA traddodiadol i ymuno â'r proffesiwn.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) i ddatblygu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â dau gwestiwn. Y cyntaf yw i ba raddau y mae'r gweithlu addysgu yng Nghymru yn adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Yr ail yw ystod a dyfnder yr amrywiaeth yn y gweithlu. Mae'r cynllun gweithredu'n cynnwys: prosiect ymchwil cyflym i nodi arfer gorau rhyngwladol; ymateb ar lefel polisi i'r cyd-destun Cymreig; a chynllun gweithredu i fynd i'r afael â materion a godwyd gan ymchwil a datblygiad polisi.

**Goblygiadau ariannol: Dim: mae cyllid ar gyfer datblygu adnoddau wedi cael ei nodi yn y cyllidebau presennol**

**<u>Argymhelliad 8</u>**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylid cynnwys hanesion amrywiaeth hiliau a chrefyddau Cymru mewn addysg gychwynnol i athrawon, a dylid eu hadlewyrchu mewn deunyddiau addysgu ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Bydd fy swyddogion yn cydweithio â'r darparwyr AGA wrth iddynt ddatblygu cynnwys eu rhaglenni mewn ymateb i'r cwricwlwm newydd, er mwyn sicrhau bod athrawon y dyfodol yn gallu cael mynediad at yr amrywiaeth o hanesion yng Nghymru a'u haddysgu i ddisgyblion.

Yn ddiweddar, mae fy swyddogion wedi cynnal adolygiad o'r holl adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi'r gwaith o addysgu hanes Cymru mewn ysgolion. Bydd y gwaith o gomisiynu adnoddau pellach i gefnogi addysgu'r cwricwlwm newydd yn cael ei lywio gan gasgliadau'r adolygiad gan Estyn.

**Goblygiadau ariannol: Dim: mae cyllid ar gyfer datblygu adnoddau wedi cael ei nodi yn y cyllidebau presennol**